OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 176

# Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

## Rhan 1

## Cyfeirio Gwrthwynebiadau at y Cynulliad Cenedlaethol

**Achosion pan na chaniateir cyfeirio gwrthwynebiad**

**4.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi at ddibenion adran 90(1)(c) y disgrifiad o wrthwynebiadau na chaniateir eu cyfeirio at y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 90(1).

(2) Ni chaniateir cyfeirio gwrthwynebiad—

(a) Os sylwedd y gwrthwynebiad yw ceisio newid y trefniadau derbyn o dan sylw a hwnnw'n newid a fyddai'n gyfystyr â newid a ragnodwyd at ddibenion adran 28, neu

(b) mewn unrhyw achos pan mai corff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir yw'r corff sy'n ceisio gwneud y gwrthwynebiad ac nad yw'r cyfrifoldeb dros benderfynu trefniadau derbyn yr ysgol wedi'i ddirprwyo iddo o dan adran 88(1)(a)(ii), ac mai gwrthwynebiad i'r canlynol yw'r gwrthwynebiad—

(i) trefniadau derbyn unrhyw ysgol gymunedol arall neu ysgol wirfoddol arall a reolir yn yr ardal berthnasol lle'r awdurdod addysg lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol, neu

(ii) trefniadau derbyn yr ysgol y mae'r corff sy'n ceisio gwneud y gwrthwynebiad yn gorff llywodraethu arni, onid yw sylwedd y gwrthwynebiad yn ymwneud â phenderfynu unrhyw nifer derbyn ar gyfer yr ysgol honno.

**Terfynau amser y mae'n rhaid cyfeirio'r gwrthwynebiad o'u mewn**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni chaniateir cyfeirio gwrthwynebiad o dan adran 90(1) onid yw'n dod i law'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn 6 wythnos ar ôl i'r hysbysiad sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 89(4)(b) ddod i law'r awdurdod derbyn sy'n gwrthwynebu.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni chaniateir cyfeirio gwrthwynebiad o dan adran 90(2) onid yw'n dod i law'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn 6 wythnos ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd gyntaf hysbysiad o'r penderfyniad ar drefniadau derbyn perthnasol mewn papur newydd yn y dull sy'n ofynnol gan reoliadau o dan adran 89(**1**).

(3) Mae gwrthwynebiad sy'n dod i law ar ôl diwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (1) neu (2) i'w ystyried fel pe bai wedi'i gyfeirio'n briodol os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r gwrthwynebiad fod wedi dod i law yn gynharach na'r amser y daeth i law.

(**1**) *Gweler* Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006, O.S. 2006/174 (Cy.25).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*